**Newidiadau i'r tâliadau am sesiwn chwarae boreol mewn ysgolion cynradd**

Mae nifer o ysgolion cynradd yn Wrecsam yn cynnig brecwast am ddim mewn sesiwn yn y 30 munud cyn dechrau'r ysgol. Gallwn eich sicrhau na chodir unrhyw dâl o hyd am y pryd hwn.

Fodd bynnag, yn ychwanegol at y sesiwn brecwast am ddim, mae nifer o ysgolion yn cynnig sesiwn chwarae 30 munud ychwanegol ac yn codi £1 y plentyn ar rieni (am ddim i blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim).

Tra bod y gyfradd hon wedi aros yn ddigyfnewid ers y cyflwynwyd y ddarpariaeth yn 2018, o ganlyniad i gynnydd mewn costau gweinyddol a staffio, a'r ffaith nad yw'r cyngor yn derbyn unrhyw gyllid allanol, nid yw hyn yn gynaliadwy mwyach.

I sicrhau fod ysgolion yn gallu parhau i ddarparu'r sesiynau hyn, bydd y ffi i bob plentyn am y sesiwn chwarae 30 munud yn cynyddu i £2 y plentyn (50c i blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim) o Fedi 1 2023.

Nid yw'r cynnydd hwn yn effeithio ar y sesiwn brecwast 30 munud yn union cyn dechrau'r diwrnod ysgol, sy'n parhau am ddim i bob plentyn.

Fe wyddom y daw hyn ar adeg pan fo cynifer o breswylwyr yn teimlo fod costau cartref yn heriol. Os ydych chi'n cael trafferth talu costau eich cartref, ewch i dudalennau 'cymorth gyda chostau byw' Cyngor Wrecsam am gyngor ar unrhyw gymorth arall a allai fod ar gael i chi.

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd dudalen gymorth yn ymwneud â chostau byw, sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â ffynonellau o gymorth ariannol posibl.

Os hoffech i'ch plentyn fynychu sesiwn frecwast, cysylltwch â'u hysgol i gael y manylion.

**A ydych chi'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim?**

Os ydych chi ar incwm isel, fe allwch fod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ogystal â'r grant Hanfodion Ysgol i helpu gyda phrynu gwisg ysgol a chyfarpar. Ewch i'r dudalen isod i gael gwybod mwy:

Y Cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd yn cael ei gyflwyno i Flynyddoedd 3 i 6 - Newyddion Cyngor Wrecsam